# Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor, dan ofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

O Ebrill 1af 2021 ymlaen mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

## 1) Manylion

### 1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

| |
|---|
| Cynllun Gweithredu Llechen Lân: Gwasanaethau Cymdeithasol Pobl Hŷn i'r Dyfodol |

### 1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Pwrpas Cynllun Gweithredu Llechen Lân yw gosod cyfeiriad strategol a rhaglen waith er mwyn rheoli'r galw yn y maes gwasanaethau cymdeithasol pobl hŷn.

Dilyna hyn waith ymchwil manwl gan Grŵp Tasg a Gorffen mewnol oedd yn cynnwys Swyddogion o'r Gwasanaeth Ymchwil, Adran Gyllid, Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a Thîm Comisiynu a Busnes. Er mwyn creu sail dystiolaeth gadarn, casglodd a dadansoddodd y grŵp ddata lleol, sirol a chenedlaethol, a darllen llenyddiaeth ryngwladol.

Ymhelaethodd Llechen Lân ar y sefyllfa bresennol drwy:

- Rhagweld sut bydd y boblogaeth yn newid dros y 20 mlynedd nesaf.
- Ystyried sut y gallai'r newidiadau hyn effeithio ar y galw am ofal.
- Edrych ar ein gallu i ddiwallu'r angen, gan gymharu gyda siroedd eraill cyffelyb.
- Rhagfynegi'r pwysau ariannol disgwyliedig.

Cyhoeddwyd yr Adroddiad Terfynol mis Medi 2024: Llechen Lân

Mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb yma yn edrych ar **Gynllun Gweithredu Llechen Lân** yn ei gyfanrwydd. Petai prosiect neu ffrwd gwaith unigol o fewn y Cynllun yn golygu newid i weithdrefn a gaiff effaith ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig yna disgwylir Asesiad Effaith ar wahân.

Dyletswydd y person sy'n gyfrifol am y prosiectau unigol yw gwneud yr Asesiad(au) yna.

### 1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Aled Davies, Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant
Dylan Owen, Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol

### 1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

Medi 2024 – fersiwn 1- asesiad o'r Cynllun Gweithredu Llechen Lân

## 2) Gweithredu

### 2.1 Pwy yw'r budd-ddeiliaid neu bartneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

Defnyddwyr gwasanaeth, trigolion Gwynedd, darparwyr gofal, gweithlu'r Cyngor a'r trydydd sector.

### 2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei cymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchodedig, ynglŷn â'r iaith Gymraeg neu â chymunedau (un ai oherwydd lleoliad neu oherwydd angen) sy'n byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol?

Rydym wedi ymgysylltu'n eang â gweithlu'r Cyngor (ar draws yr Adrannau) er mwyn codi ymwybyddiaeth o rai o'r heriau sydd wedi eu hamlygu yn yr Adroddiad Llechen Lân. Gwnaed hyn o dan y faner "Pan wyf yn hen a pharchus" ac aethpwyd a'r sesiwn i'r Rhwydwaith Rheolwyr, Tîm Arweinyddiaeth a'r Tîm Rheoli.

Y bwriad oedd ceisio dod o hyd i ddatrysiadau a ffyrdd newydd o weithio oedd ddim yn ddibynnol ar wasanaethau statudol yn unig.

Cyfarfu y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn benodol â'r 5 Tîm Adnoddau Cymunedol (TAC), sef y timau o Weithwyr Cymdeithasol, Therapyddion Galwedigaethol ac Ymarferwyr Gwaith Cymdeithasol sy'n gyfrifol am achosion oedolion hŷn, dros gyfnod o amser er mwyn trafod yr her a sicrhau eu arbenigedd wrth gynnig datrysiadau.

Cyflwynwyd canlyniadau ymchwil Llechen Lân i sefydliadau sy'n rhan o'r Grŵp Cyswllt Trydydd Sector hefyd. Gweithia rai o'r aelodau hefo pobl a/neu blant hefo nodweddion cydraddoldeb, ac roedd yn bwysig cael trafodaeth agored am heriau, a chyfleon i'r dyfodol.

## 2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

Rhoddodd yr ymgysylltu gyfle teg i'r gweithlu, a'r mudiadau trydydd sector, roi syniadau ar y ffordd y gallwn addasu ein ffordd o weithio i'r dyfodol.

Yn gyffredinol, cafwyd sgyrsiau buddiol ac roedd yn gyfle i wyntyllu syniadau newydd am y ffyrdd rydym yn cefnogi pobl hŷn.

## 2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

Mae Adroddiad Llechen Lân yn ddarn o waith ymchwil manwl sy'n edrych i dueddiadau demograffeg dros yr ugain mlynedd nesaf. Mae'n cynnig sail dystiolaeth gadarn, ac wedi deillio o ffynonellau data lleol, sirol a chenedlaethol, a darllen llenyddiaeth ryngwladol.

Yn fras, mae'r ymchwil yn dangos:

- Rhwng Cyfrifiadau 2011 a 2021 tyfodd y boblogaeth dros 65 oed yng Ngwynedd o 25,100 i 27,300, sef cynnydd o 8%. Awgryma rhagfynegai poblogaeth y bydd yn parhau i gynyddu dros yr ugain mlynedd nesaf, gan gyrraedd 32,500 erbyn 2043.
- Yn ôl y Cyfrifiad gostyngodd cyfanswm poblogaeth oedran gweithio (16-64 oed) Gwynedd o 75,800 yn 2011 i 70,700 yn 2021. Roedd hyn yn cyfateb i ostyngiad cyfartalog o 42 o bobl o oedran gweithio yng Ngwynedd bob mis dros y cyfnod o ddeng mlynedd. Yn ystod yr un cyfnod roedd gostyngiad o 7% yn y boblogaeth dan 16 oed (o 20,900 i 19,400).
- Mae cyfuniad o'r newid demograffeg a gostyngiad yn y gweithlu yn debygol o ledu'r bwlch yn yr hyn gall awdurdodau lleol ei wneud. Er enghraifft, rydym yn rhagweld bydd cynnydd yn y galw am ofal cymdeithasol o 57% erbyn 2043, ac ar yr un pryd bydd angen 1,000 yn fwy o weithwyr i ddiwallu'r angen hwn.
- Hyd yn oed pe bai'r gweithlu i ddarparu'r gwasanaethau'n ymddangos yn wyrthiol, byddai'r goblygiadau ariannol cysylltiedig yn sylweddol. Amcangyfrifir bod y costau ychwanegol a ragwelir ar gyfer gwasanaethau gofal traddodiadol yn unig yn cyrraedd £24.3m bob blwyddyn erbyn 2043 (ac hynny yn eithrio unrhyw gynnydd chwyddiant).

| |
|---|
| • Mae ail rhan o adroddiad Llechen Lân yn modelu effeithiau posib trawsnewid darpariaeth gwasanaethau yn unol â'r cymedr ar draws siroedd gwledig. Canolbwyntia'r rhan yma ar ddulliau gall ein helpu i leihau'r pwysau ar wasanaethau gofal cymdeithasol traddodiadol, sef: Gwaith Cymunedol, Teleofal, Technoleg a Deallusrwydd Artiffisial (AI), Gwaith ar sail cryfder, Tai Gofal Ychwanegol, Taliadau Uniongyrchol.<br>• Yn syml, nid yw'r sefyllfa darparu gofal cymdeithasol i bobl hŷn yng Ngwynedd yn hyfyw nac yn gynaliadwy ac os na newidiwn ni'r ffordd o weithredu, ni fydd yn bosib darparu gofal cymdeithasol i'r dyfodol.<br><br>Gellir ddarllen yr adroddiad ymchwil llawn yma: Llechen Lân |

### 2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

| |
|---|
| Yn gyffredinol, mae'n bwysig cofio mai model yn unig yw "Llechen Lân", sy'n defnyddio'r wybodaeth orau sydd ar gael er mwyn cynhyrchu amcangyfrifon lefel-uchel o'r galw am wasanaethau gofal pobl hŷn i'r dyfodol. Dylid ymdrin â'r canlyniadau fel tafluniad o'r hyn allai ddigwydd yn hytrach na chyfrifiad manwl-gywir; fe all y bydd angen diweddaru'r rhagolygon i'r dyfodol yng ngoleuni profiad, neu gynnal ymchwil pellach i gadarnhau rhai agweddau.<br><br>Wrth fodelu'r anghenion gofal i'r dyfodol, rhagdybir y bydd y cyfran o'r boblogaeth 65 oed a throsodd sy'n derbyn gofal yn aros yn gyson (felly, wrth i boblogaeth Gwynedd mewn grŵp oedran penodol gynyddu i'r dyfodol, y bydd y nifer pobl o fewn yr oedran hwnnw fydd angen derbyn y gwahanol fathau o ofal yn cynyddu yn ôl yr un cyfran). Nid yw'r model felly yn cynnwys unrhyw newidiadau mewn anghenion gofal e.e. pe bai iechyd cyffredinol y boblogaeth yn gwaethygu neu wella, neu os oes newid yn y gyfran o'r boblogaeth sydd gyda chyflwr neu afiechyd.<br><br>Er bod rhai pethau nad oes modd proffwydo ar eu cyfer, wrth gwrs, megis gwella clefydau neu bandemig, cynghora Comisiwn Bevan mai "yr oedran cyfartalog y rhagwelir y bydd afiechydon mawr yn datblygu yw 70 mlynedd. Gyda'r cynnydd mewn disgwyliad oes, bydd y blynyddoedd a dreulir gyda salwch yn cynyddu hefyd." |

## 3) Adnabod yr Effaith

### 3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae hefyd angen ystyried yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac ar y Gymraeg.

| Nodweddion | Sut fath o effaith? * | Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth? |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| **Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)** | Dim | Mae’r effaith yn ymddangos yn niwtral o ran y cynllun, ond mae’n angenrheidiol i adrannau sicrhau eu bod yn gwneud asesiad effaith ar y materion unigol. |
| **Anabledd** | Positif | Mae Ymchwil Bevan yn nodi: "Mae afiechydon mawr yn debygol o ddatblygu ar oedran cyfartalog o 70 mlynedd. Wrth i ddisgwyliad oes gynyddu, bydd y blynyddoedd a dreulir gyda salwch hefyd yn cynyddu."<br><br>Mae'n bosibl felly y bydd llawer o bobl hŷn hefyd yn byw gyda anabledd corfforol. Gobeithir y gall y Cynllun Gweithredu Llechen Lân alluogi pobl anabl fyw mor annibynnol â phosib, gyda chefnogaeth cymunedau. |
| **Rhyw** | Dim | Mae’r effaith yn ymddangos yn niwtral o ran y cynllun, ond mae’n angenrheidiol i adrannau sicrhau eu bod yn gwneud asesiad effaith ar y materion unigol. |
| **Oedran** | Positif | Gwelir effeithiau’r newid poblogaeth hŷn yng Ngwynedd, gyda’r galw am wasanaethau gofal henoed yn cynyddu, tra fod y gweithlu sydd ar gael i ddiwallu’r angen wedi lleihau. Felly, mae nifer sylweddol o bobl hŷn sydd angen gofal Cartref, Preswyl a Nyrsio yn gorfod disgwyl amdano a’r pwysau ar wasanaethau yn tyfu.<br><br>Ar hyn o bryd mae Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn yn tueddu i ddarparu dulliau traddodiadol o ofal, tra bod rhai siroedd eraill yn gwneud defnydd o ddulliau amgen i helpu pobl i fyw'n annibynnol.<br><br>Ein bwriad drwy weithredu’r Cynllun Llechen Lân yw gwneud mwy o ddefnydd o ddulliau fel taliadau uniongyrchol, roboteg, technoleg AI, gwaith cymunedol a gwaith ar sail cryfder i leihau’r angen am wasanaethau gofal cymdeithasol statudol, hyrwyddo annibyniaeth unigolion o fewn eu cymunedau, lleihau unigrwydd a theimladau ynysig, a chadw pobl yn eu cartrefi yn hirach.<br><br>Ceir tystiolaeth fod y dulliau yma yn gwella canlyniadau i bobl hŷn, er enghraifft:<br><br>Mewn astudiaeth a gynhaliwyd mewn pum awdurdod lleol yn Lloegr lle defnyddiwyd dull **seiliedig ar gryfderau,** daethpwyd o hyd i'r canlynol. Arweinia ymarfer sy'n seiliedig ar gryfder at: well sylw at hawliau dynol; mwy o ganolbwyntio ar safbwynt a dymuniadau unigolion; gwell cyd-weithio amlddisgyblaethol; mwy o rymuso a safbwyntiau cadarnhaol i'r dyfodol (Nelson-Becker, et al. 2020). |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cred llawer o arbenigwyr y gallai **technoleg** helpu i ddatrys problemau brys sy'n wynebu'r sector gofal cymdeithasol; galluogi unigolion i fyw gartref yn hirach, gan ddarparu gwasanaethau ac offer o bell ar gyfer hunanofal a rheoli cyflyrau iechyd cronig; lleihau'r angen am ymweliadau gofal cartref; a darparu gwasanaethau gofal mwy personol ac ataliol trwy ddefnyddio dyddiad ac algorithmau i'n helpu i fyw yn iachach am fwy o amser (Wright, 2020).<br><br>Medd Adroddiad Ffyniant i Bawb, Llywodraeth Cymru (2017): "Mae **tai da** yn chwarae rhan hanfodol mewn heneiddio'n iach ac annibynnol. Mae galluogi pobl i aros yn eu cartrefi am gyfnod hirach yn dod â manteision iechyd, cymdeithasol ac economaidd sylweddol. Mae angen y math cywir o dai arnom yn y lle iawn sy'n cyd-fynd ag anghenion pobl. Bydd yna rhai achosion lle bydd tai yn cael eu hadeiladu'n bwrpasol, mewn eraill, trwy drefnu addasiadau i'r cartref presennol".<br><br>Noda Gofal Cymdeithasol Cymru (2022) fod **taliadau uniongyrchol** yw gwella dewis, rheolaeth ac annibyniaeth unigolion. Yn yr un modd nododd Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Ofal Cymunedol yn 2004: *"I see direct payments, personal cash budgets, and other ways of extending choice and control as key to developing social care for the twenty-first century"* (Fernandez et al)<br><br>Wrth gwrs, ceir hefyd gyfeiriad yn y Cynllun at oedran gwaith a pobl ifanc. Ein bwriad yw cyd-weithio gyda'r Adran Economi i leihau'r gostyngiad parhaus ym mhoblogaeth oedran gwaith y sir, drwy hyrwyddo Gwynedd fel y man gorau yng Nghymru i fyw'n ifanc.<br><br>Mae'r Rhaglen Academi Gofal hefyd yn cynnig cyfleoedd gwaith i bobl ifanc ac yn hyrwyddo gyrfaoedd yn y gwasanaethau cymdeithasol er mwyn denu gweithlu hyfyw. |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Dim | Mae'r effaith yn ymddangos yn niwtral o ran y cynllun, ond mae'n angenrheidiol i adrannau sicrhau eu bod yn gwneud asesiad effaith ar y materion unigol. |
| **Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)** | Dim | Mae'r effaith yn ymddangos yn niwtral o ran y cynllun, ond mae'n angenrheidiol i adrannau sicrhau eu bod yn gwneud asesiad effaith ar y materion unigol. |
| **Ailbennu rhywedd** | Dim | Mae'r effaith yn ymddangos yn niwtral o ran y cynllun, ond mae'n angenrheidiol i adrannau sicrhau eu bod yn gwneud asesiad effaith ar y materion unigol. |

| | | |
|---|---|---|
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Dim | Mae'r effaith yn ymddangos yn niwtral o ran y cynllun, ond mae'n angenrheidiol i adrannau sicrhau eu bod yn gwneud asesiad effaith ar y materion unigol. |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | Dim | Mae'r effaith yn ymddangos yn niwtral o ran y cynllun, ond mae'n angenrheidiol i adrannau sicrhau eu bod yn gwneud asesiad effaith ar y materion unigol. |
| **Yr iaith Gymraeg** | Positif | Yn 1971 roedd 4% o boblogaeth Caerdydd yn siarad Cymraeg. Erbyn cyfrifiad 2021 gwelwyd fod 34.7% o boblogaeth Treganna yng nghanol y brifddinas yn siarad yr iaith. Er ei bod yn anodd rhoi tystiolaeth gadarn, ni chredir, yn anffodus, mai datblygiad addysg Gymraeg yn y ddinas yn unig gyfrannodd at y cynnydd hwn. Acenion Gwynedd, Ceredigion a Sir Gâr glywir ar nifer fawr o'r tafodau, gan awgrymu bod allfudo sylweddol wedi lleihau'r boblogaeth oedran gwaith yn ardaloedd gwledig y fro Gymraeg.<br><br>Ein bwriad yw cyd-weithio gyda'r Adran Economi i leihau'r gostyngiad parhaus ym mhoblogaeth oedran gwaith y sir, drwy hyrwyddo Gwynedd fel y man gorau yng Nghymru i fyw'n ifanc.<br><br>Mae Mwy na Geiriau yn Strategaeth gan Llywodraeth Cymru er mwyn gwreiddio'r Gymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol fel bod pobl yn cael y gofal mae'n nhw'n ei haeddu a'i angen. Drwy'r Rhaglen Academi Gofal cynigir gyfleoedd gwaith i bobl ifanc Cymraeg yn lleol er mwyn denu gweithlu hyfyw. |
| **Anfantais Economaidd-Gymdeithasol** | Positif | Mae'r Cyngor yn ymwybodol fod nifer o bobl Gwynedd yn byw mewn amodau o anghyfartaledd oherwydd anfantais economaidd-gymdeithasol.<br><br>Cyniga'r Rhaglen Academi Gofal gyfleoedd gwaith o safon i bobl ifanc, gan roi cyfle iddynt ennill cyflog a gyrfa dda o fewn y gwasanaethau cymdeithasol.<br><br>Mae cryfhau cymunedau hefyd yn rhan allweddol o Gynllun Llechen Lân. Ar draws Gwynedd ceir sawl prosiect cymunedol ar gael a chyfleoedd sydd yn rhoi'r cynnig i unigolion fod yn aelod o'u cymunedau. Mae enghreifftiau o'r hyn sydd ar gael yn amrywio o glybiau garddio, i ddosbarthiadau Actif am Oes, i gyfleoedd sy'n pontio'r cenedlaethau, i hybiau cymunedol. Ar draws y Sir mae deg hwb cymunedol wedi'i sefydlu a phob un yn teilwra yn ôl gofynion yr ardal y maent yn gwasanaethu.<br><br>Dros y blynyddoedd nesaf gobeithir barhau i adeiladu ar yr hyn sydd ar gael ar draws cymunedau a gwneud hynny ar |

| | | |
|---|---|---|
| | | sail beth a glywir gan bobl hŷn y Sir a'r hyn sydd ei angen. Mae hynny yn arbennig wir mewn cymunedau difreintiedig. Gwneir hyn drwy weithio mewn partneriaeth gyda sawl mudiad, grŵp cymunedol a phobl hŷn Gwynedd gan barhau i weithio ar sail cryfderau – yr unigolion a'r cymunedau – i gyfarch a diwallu anghenion lleol. |

**3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

| **Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb** | **A yw'n cael effaith?*** | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Ansicr ar hyn o bryd oherwydd diffyg tystiolaeth | Mae'r effaith yn ymddangos yn niwtral o ran y cynllun, ond mae'n angenrheidiol i adrannau sicrhau eu bod yn gwneud asesiad effaith ar y materion unigol. |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Ydi | Dylai'r meysydd blaenoriaeth a'r cynlluniau unigol gael effaith bositif ar y ddyletswydd.<br><br>Bydd angen i'r Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol adnabod os oes materion penodol i'w hystyried. |
| **Meithrin perthnasau da** | Ydi | Rhan bwysig o Gynllun Gweithredu Llechen Lân yw ail-gysylltu pobl gyda'u cymunedau, gan sicrhau fod unigolion yn ymwybodol o'r cyfleon sydd ar gael o fewn eu pentrefi neu trefi.<br><br>Y weledigaeth yng Ngwynedd yw adeiladu cymunedau gwydn lle nad yw oedran yn rhwystr, trwy weithio mewn partneriaeth gyda mudiadau trydydd sector i gyfarch anghenion cymunedol. Mae cadw mewn cysylltiad a leihau unigrwydd yn hanfodol i unigolion yn ein cymunedau. |

**3.3 Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y manteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?**

Mae Mwy na Geiriau yn Strategaeth gan Llywodraeth Cymru er mwyn gwreiddio'r Gymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol fel bod pobl yn cael y gofal mae'n nhw'n ei haeddu a'i angen. Drwy'r Rhaglen Academi Gofal cynigir gyfleoedd gwaith i bobl ifanc Cymraeg yn lleol er mwyn denu gweithlu hyfyw.

Ein bwriad yw cyd-weithio gyda'r Adran Economi i leihau'r gostyngiad parhaus ym mhoblogaeth oedran gwaith y sir, drwy hyrwyddo Gwynedd fel y man gorau yng Nghymru i fyw'n ifanc.

**3.4 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i leihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gallai'r polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?**

Mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb yma yn edrych ar y Cynllun yn ei gyfanrwydd. Mae disgwyl i bob prosiect unigol gael Asesiad ar wahân ar y prosiect yn ei gyfanrwydd a/neu ar rannau penodol ohono.

Dyletswydd y person sy'n gyfrifol am y cynlluniau unigol yw gwneud yr Asesiad(au) yna. Bydd angen i'r asesiadau hyn adnabod unrhyw gyfleoedd pellach i hybu'r iaith Gymraeg yn eu meysydd.

**3.5 Sut mae'r cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwch fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig).**

Mae angen i ni alluogi bobl Gwynedd i fyw bywyd da cyn hired a phosib o fewn eu cymunedau'n lleol. I gyflawni hyn, mae angen iddynt fod â'r wybodaeth sydd ei angen arnynt i fanteisio ar gyfleon cymunedol fyddai'n hyrwyddo eu llesiant, yn ogystal â dulliau hyblyg o drefnu'r gefnogaeth sydd ei angen arnynt.

Dros y blynyddoedd nesaf gobeithir barhau i adeiladu ar yr hyn sydd ar gael ar draws cymunedau a gwneud hynny ar sail beth a glywir gan bobl hŷn y Sir a'r hyn sydd ei angen. Mae hynny yn arbennig wir mewn cymunedau difreintiedig. Gwneir hyn drwy weithio mewn partneriaeth gyda sawl mudiad, grŵp cymunedol a phobl hŷn Gwynedd gan barhau i weithio ar sail cryfderau – yr unigolion a'r cymunedau – i gyfarch a diwallu anghenion lleol.

**3.6 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol â'r Ddeddf Economaidd-Gymdeithasol?**

| |
|---|
| Mae disgwyl i bob prosiect unigol gael Asesiad ar wahân ar y prosiect yn ei gyfanrwydd a/neu ar rannau penodol ohono a bydd hyn yn cynnwys asesu'r anfantais economaidd gymdeithasol.<br><br>Dyletswydd y person sy'n gyfrifol am y cynlluniau unigol yw gwneud yr Asesiad(au) yna. Bydd angen i'r asesiadau hyn adnabod unrhyw gyfleoedd pellach i leihau anghyfartaledd o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu meysydd. |

## 4) Dadansoddi'r canlyniadau

### 4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

| |
|---|
| Mae'n ymddangos y dylai'r meysydd blaenoriaeth gael effaith sylweddol bositif ar nodweddion cydraddoldeb – anabledd, oedran, anfantais economaidd-gymdeithasol a'r iaith Gymraeg.<br><br>Disgwylir i bob asesiad effaith cydraddoldeb unigol edrych ar yr effaith mewn mwy o fanylder. |

### 4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

| |
|---|
| Nid oes effeithiau sylweddol negyddol wedi eu hadnabod hefo'r Cynllun yn ei gyfanrwydd. Bydd pob asesiad effaith unigol yn edrych ar yr effaith mewn mwy o fanylder. |

### 4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn | X |
| Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau | |
| Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr | |
| Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | |
| Dim camau pellach ar hyn o bryd, mae'n gynamserol i benderfynu, neu does dim digon o dystiolaeth | |

### 4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

| |
|---|
| Bydd yr adrannau yn gweithio i sicrhau eu bod yn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol. |

**4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.**

| |
|---|
| Dim yn berthnasol |

## 5) Monitro

**5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?**

| |
|---|
| Mae Adrannau'r Cyngor yn gyfrifol am weithredu'r cynlluniau unigol o fewn Cynllun Gweithredu Llechen Lân.<br><br>Yn dilyn mabwysiadu'r rhaglen waith dylid sicrhau fod Cabinet y Cyngor a Phwyllgor Craffu Gofal y Cyngor yn cadw llygad barcud ar y datblygiadau hyn dros y blynyddoedd sydd i ddod.<br><br>Os oes angen newid cynnwys neu gyfeiriad unrhyw brosiect unigol bydd angen ail ymweld â'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar gyfer y prosiect hwnnw. |